OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 379 (Cy. 114)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Gerbytffordd tua'r Dwyrain rhwng Cyffordd 12 (Tal-y-bont) a Chyffordd 14 (Madryn), Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Mawrth 2016* |
| *Yn dod i rym* | *15 Mawrth 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Mawrth 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Gerbytffordd tua'r Dwyrain rhwng Cyffordd 12 (Tal-y-bont) a Chyffordd 14 (Madryn), Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2016.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn; a

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period”*) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 19:00 o’r gloch ar 15 Mawrth 2016 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darn(au) o’r gefnffordd” *(“the length(s) of the trunk road”)* yw’r darnau hynny o’r gefnffordd rhwng Cyffordd 12 (Tal-y-bont) a Chyffordd 14 (Madryn) yn Sir Gwynedd a bennir yn yr Atodlenni i’r Gorchymyn hwn;

ystyr “lluoedd arbennig” *(“special forces”)* yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiadau a Gwaharddiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw

gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd droi i'r dde na gwneud troad pedol o un gerbytffordd i'r llall drwy'r bylchau yn y llain ganol ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

**7.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n 3 metr o led neu'n fwy, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd o'r fath fynd, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

**Atal Dros Dro**

**8.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1, 2 a 3 drwy hyn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3, 4 a 5 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**9.** (1) Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**10.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 9 Mawrth 2016

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1 cilometr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 12 am bellter o 1.05 cilometr.

### ATODLEN 2
### Terfyn Cyflymder 30 mya Dros Dro

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 2.05 cilometr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 12 am bellter o 850 o fetrau.

### ATODLEN 3
### Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 2.9 cilometr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 12 hyd at ganolbwynt Cyffordd 14.

### ATODLEN 4
### Gwahardd Troi i'r Dde/Troadau Pedol Dros Dro a Gwahardd Cerbydau sy'n fwy na 3 Metr o Led Dros Dro

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o Gyffordd 12 hyd at Gyffordd 14.